Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Adroddiad Blynyddol: Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

Ebrill 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCydraddoldeb**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Adroddiad Blynyddol:
# Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

Ebrill 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

**2. Y cefndir** .......... **7**

**3. Trosolwg** .......... **8**

Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2023 .......... 8

Ceisiadau a gafodd benderfyniad .......... 8

Canlyniadau llwyddiannus .......... 8

Camgymeriadau system canlyniadau .......... 9

Ein barn ni .......... 10

Preswylwyr cyn-sefydlog .......... 10

Newidiadau i statws cyn-sefydlog .......... 10

Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 11

Sylwebaeth ar y newidiadau .......... 12

Migration Observatory ym Mhrifysgol Rhydychen .......... 12

Y DU mewn Ewrop sy'n Newid .......... 12

Nifer y preswylwyr cyn-sefydlog yng Nghymru .......... 13

Troi statws preswylydd cyn-sefydlog yn statws preswylydd sefydlog .......... 13

Ein barn ni .......... 16

**4. Ceisiadau hwyr** .......... **17**

Nifer y ceisiadau hwyr o Gymru .......... 17

Materion sy'n codi .......... 17

Newidiadau i ganllawiau 'seiliau rhesymol' .......... 18

Dileu'r hawl i adolygiad gweinyddol .......... 19

**5. Dim cais ... 22**

Cafodd dau lwybr o ran y Cynllun eu cau i geisiadau newydd ar 8 Awst 2023. ... 22

Ein barn ni ... 23

**6. Cymorth gan Lywodraeth Cymru ... 24**

Gwasanaethau cyngor a chymorth ... 24

Cymuned Roma ... 24

Ein barn ni ... 26

**7. Wcráin ... 27**

**8. Awdurdod Monitro Annibynnol ... 29**

Ein barn ni ... 30

**9. Fforwm Hawliau Dinasyddion newydd yr UE ... 31**

Ein barn ni ... 31

**10. Y camau nesaf ... 32**

# Rhagair y Cadeirydd

O blith yr addewidion niferus a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm i adael yr UE, prin yw'r rheini a allai fod wedi cael mwy o oblygiadau na'r ymrwymiadau a wnaed ar hawliau dinasyddion, ar y 100,000 o bobl o rannau eraill o Ewrop – eu ffrindiau a'u teuluoedd – yr amcangyfrifir eu bod yn byw yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi bod yn monitro ac yn hyrwyddo hawliau dinasyddion Ewrop a oedd am barhau i fyw yng Nghymru ar ôl Brexit, ers 2021.

Rydym wedi cael adroddiadau monitro rheolaidd ar yr ystadegau diweddaraf, wedi cynnal gwaith craffu ar gamau gweithredu llywodraethau, ac wedi rhannu unrhyw faterion sy'n peri pryder gyda Gweinidogion Cymru a'r corff gwarchod DU-gyfan, yr Awdurdod Monitro Annibynnol.

Dyma ein hail adroddiad blynyddol sy'n amlinellu ystadegau'r Cynllun ar gyfer Cymru, hyd at 31 Rhagfyr 2023. Mae'n dangos bod cymhlethdodau ychwanegol yn dod i'r amlwg sy'n galw am ein sylw parhaus, yn ogystal â materion hirsefydlog.

Ar ran y Pwyllgor, dyma groesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bob un o ddinasyddion Ewrop yng Nghymru, a'i pharodrwydd i rannu gwybodaeth. Mae ein casgliadau a'r argymhellion wedi'u cynllunio i gefnogi dinasyddion Ewrop sy'n byw yng Nghymru ymhellach, ac i ddangos pwysigrwydd ein gwaith parhaus ar y mater hwn.



**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ("y Pwyllgor") wedi ystyried adroddiadau monitro chwarterol y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd ("y Cynllun") ers ei sefydlu ym mis Mehefin 2021.

**2.** Mae'r ail adroddiad blynyddol hwn yn cyflwyno ystadegau'r Cynllun sy'n ymwneud â Chymru hyd at 31 Rhagfyr 2023 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru.

# 2. Y cefndir

**3.** Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, rhoddodd Llywodraeth y DU derfyn amser i ddinasyddion Ewrop a oedd yn byw yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020, i wneud cais i aros yma erbyn 30 Mehefin 2021.

**4.** Roedd hyn yn gymwys i ddinasyddion Aelod-wladwriaethau'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir ond nid dinasyddion Iwerddon, sydd wedi'u heithrio o dan drefniadau ar wahân. Mae nifer y dinasyddion o'r gwledydd hyn sy'n byw yn y DU yn anhysbys, sy'n golygu nad oes neb yn gwybod faint o geisiadau y dylid ei ddisgwyl.

**5.** Rhaglen Llywodraeth y DU yw'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ; rhaid i ddinasyddion Ewrop wneud cais iddo er mwyn aros yn y DU ar ôl Brexit.

**6.** Ers ei lansio, mae bron 7.7 miliwn o geisiadau wedi cael eu cyflwyno i'r Cynllun. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn-sefydlog'. I gael y cefndir, darllenwch erthygl flaenorol Ymchwil y Senedd.

**7.** Mae'r Cynllun yn un o ofynion y cytundebau hawliau dinasyddion rhwng y DU, yr UE a gwledydd Ewropeaidd eraill fel rhan o Brexit, gan gynnwys y Cytundeb Ymadael. Mae hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU yn cael eu gwarantu gan gytundebau â'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir.

**8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gadw at y cytundebau hyn ac roedd Jane Hutt, cyn-Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (y Gweinidog) yn gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â'r Cynllun yng Nghymru am y cyfnod a gwmpesir yn yr adroddiad hwn.

**9.** Caiff ystadegau ar y ceisiadau i'r Cynllun eu cofnodi gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddir ystadegau lefel uchel bob mis a chyhoeddir ystadegau manwl – gan gynnwys data ar gyfer Cymru – bob chwarter.

# 3. Trosolwg

## Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2023

**10.** Hyd at 31 Rhagfyr 2023, cafwyd 120,440 o geisiadau o Gymru – gan gynnwys 21,130 o geisiadau ar gyfer rhai o dan 18 oed – yn erbyn amcangyfrif gwreiddiol o 95,000 o ddinasyddion cymwys, yr oedd angen iddynt wneud cais.

## Ceisiadau a gafodd benderfyniad

**11.** Cafwyd penderfyniad ar gyfer 118,990 (98.8%) o geisiadau erbyn y terfyn amser ar gyfer yr adroddiadau ystadegol a chyfeirir atynt fel 'ceisiadau a gwblhawyd'.

## Canlyniadau llwyddiannus


**12.** Rhoddir statws 'preswylydd sefydlog' (parhaol) neu 'preswylydd cyn-sefydlog' (dros dro am bum mlynedd) i ymgeiswyr llwyddiannus. Caiff dinasyddion sy'n breswylwyr sefydlog a'r rhai sy'n breswylwyr cyn-sefydlog weithio yn y DU, a bydd gwasanaethau gofal iechyd, addysg ac arian cyhoeddus ar gael iddynt (mae hyn yn fwy cyfyngedig ar gyfer preswylwyr cyn-sefydlog). At hynny, cânt deithio i mewn i'r DU ac allan o'r DU a gwneud cais am ddinasyddiaeth. Fodd bynnag, ni chaiff preswylwyr â statws cyn-sefydlog ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â hwy.

**13.** Ers i'r Cynllun agor, mae 55.3% o ymgeiswyr yng Nghymru wedi cael statws preswylwyr sefydlog hyd at 31 Rhagfyr 2023 (65,770 o geisiadau wedi'u cwblhau) ac mae 33.6% wedi cael statws preswylwyr cyn sefydlu (39,940 o geisiadau wedi'u cwblhau).

**14.** Cofnodir ceisiadau aflwyddiannus, hefyd. O Gymru, cafodd 6.4 y cant eu gwrthod (7,600 o geisiadau a gwblhawyd), cafodd 2.3 y cant eu tynnu yn ôl neu roeddent yn amhendant (2,750 o geisiadau a gwblhawyd), ac roedd 2.5 y cant yn annilys (2,920 o geisiadau a gwblhawyd).

**15.** Mae'r ffeithlun isod yn dangos canran a nifer y ceisiadau o Gymru. Mae'n dangos a gawsant eu cyflwyno cyn/ar ôl y dyddiad cau, a benderfynwyd yn eu cylch ("a gwblhawyd" y cais) ai peidio, ac mae'n dangos canlyniad y ceisiadau gan ddinasyddion Ewrop yng Nghymru hyd at 31 Rhagfyr 2023.

**Ceisiadau i'r Cynllun o Gymru yn ôl dyddiad, ceisiadau a gwblhawyd a chanlyniadau gan ddangos y canrannau a'r niferoedd:**




Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Rhagfyr 2023, Llywodraeth y DU. Mae'r niferoedd yn cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf felly mae'n bosibl na fydd y dadansoddiadau yn cyfateb i'r cyfansymiau cyffredinol.

## Camgymeriadau system canlyniadau

**16.** Ym mis Ionawr 2023, daeth i'r amlwg nad oedd statws digidol rhai dinasyddion Ewropeaidd wedi diweddaru i ddangos penderfyniad gwrthod.

**17.** Roedd yn ofynnol i oddeutu 141,000 o ddinasyddion Ewropeaidd a oedd yn cael budd-daliadau a thriniaeth y GIG wrth aros am ganlyniad eu cais ad-dalu'r symiau a gawsant i Lywodraeth y DU.

**18.** Roedd statws digidol y rhai yr effeithiwyd arnynt yn parhau i ddangos eu bod yn 'aros' er eu bod wedi derbyn penderfyniad gwrthod rhwng 27 Mehefin 2021 a 19 Ebrill 2022.

Mae cofnodion cyfarfod Grŵp Cydgysylltu Llywodraeth Cymru y Cynllun, o fis Mehefin 2023 yn cofnodi mai dim ond nifer fach o ddinasyddion yng Nghymru fyddai angen ad-dalu'r symiau a gawsant.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gadarnhad o ran y canlynol:

- Faint o ddinasyddion Ewropeaidd y mae'r gwall yn y system wedi effeithio arnynt yng Nghymru, sydd wedi bod yn cael gwasanaethau y talwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru;
- a yw Llywodraeth Cymru wedi mesur y symiau dan sylw;
- a fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am i gostau o gyllidebau datganoledig, fel gwasanaethau iechyd, gael eu talu yn ôl.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn:

"*Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r holl fyrddau iechyd lleol yng Nghymru ac wedi penderfynu nad yw'r gwall yn y system wedi effeithio ar unrhyw ddinasyddion yr UE sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd perthnasol yng Nghymru.*"

**Ein barn ni**

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog i ganfod effaith gwall system y Cynllun ar ddinasyddion Ewrop sy'n byw yng Nghymru.

## Preswylwyr cyn-sefydlog

**19.** Yn wreiddiol, daw statws preswylydd cyn-sefydlog i ben ar ôl pum mlynedd, ac mae'n rhaid ei droi'n statws preswylydd sefydlog drwy gyflwyno ail gais. Mae hyn yn golygu y byddai angen i'r 39,460 o breswylwyr a gafodd statws preswylydd cyn-sefydlog wneud cais arall os ydynt am aros yng Nghymru ar ôl y terfyn amser.

**20.** Os nad yw person yn ailymgeisio, bydd yn colli'r hawl i weithio, i gael tŷ, addysg a budd-daliadau'n awtomatig, ac mae'n bosibl y caiff ei symud o'r DU.

## Newidiadau i statws cyn-sefydlog

**21.** Ar 21 Rhagfyr 2022, dyfarnodd yr Uchel Lys fod y gofyniad i gyflwyno ail gais er mwyn uwchraddio i statws preswylydd sefydlog yn anghyfreithlon. Ni wnaeth Llywodraeth y DU apelio'r penderfyniad, ac fe gafodd newidiadau i'r Cynllun eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ar 17 Gorffennaf 2023.

**22.** Yr hyn mae'r newidiadau yn ei olygu i breswylwyr cyn-sefydlog yw:

- Bydd **eu statws yn cael ei ymestyn yn awtomatig gan ddwy flynedd o fis Medi 2023.** Bydd preswylwyr yn cael gwybod am estyniadau, a bydd eu statws digidol yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig.

- Bydd eu statws yn cael ei **uwchraddio'n awtomatig i statws sefydlog, gan ddechrau o 2024**. Bydd hyn yn cael ei wneud gan y Swyddfa Gartref ar sail gwiriadau preswylio awtomataidd (h.y. y rhai y gall y Swyddfa Gartref ddangos eu bod wedi byw yn y DU yn barhaus am y bum mlynedd diwethaf). Nid yw'r rhai nad ydynt wedi byw yn y DU yn barhaus am bum mlynedd yn gymwys i gael uwchraddiad awtomatig. Bydd dinasyddion yn cael gwybod am uwchraddiadau awtomatig ond nid oes angen iddynt aros i gael eu huwchraddio'n awtomatig. Gall dinasyddion wneud cais i uwchraddio cyn gynted ag y maent yn gymwys.

**23.** Wrth gyhoeddi'r newidiadau, dywedodd Yr Arglwydd Murray, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ymfudo a Ffiniau:

> *"Automatic extension of pre-settled status ensures that many EU, other EEA and Swiss citizens and their family members in the UK can continue to make a hugely valued contribution to British society without fear of losing their immigration status by simply failing to apply for settled status.*
>
> *The measures we've announced today will also enable us to continue robustly tackling spurious EUSS applications, freeing up resource for legitimate late applicants and status-holders, and delivering for the UK public."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**24.** Ym mis Mawrth 2023, dywedodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, wrth y Pwyllgor ei bod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio apelio yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru:

- yn parhau i estyn allan at Lywodraeth y DU am fwy o eglurder ynghylch beth mae'r dyfarniad yn ei olygu; ac

- wedi galw ar Lywodraeth y DU i gynnwys pob llywodraeth ddatganoledig mewn unrhyw benderfyniadau neu ddatblygiadau polisi pellach yn y maes hwn.

**25.** Ym mis Awst 2023, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys. Hyrwyddwyd y canllawiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn mis Awst a mis Medi.

## Sylwebaeth ar y newidiadau

### Migration Observatory ym Mhrifysgol Rhydychen

**26.** Ar 18 Hydref 2023, dywedodd Madeleine Sumption a Mihnea Cuibus o'r Migration Observatory bod cryn ansicrwydd allweddol yn parhau ynglŷn â sut y bydd y newidiadau'n gweithio. Gwnaethant godi dau bryder allweddol:

- Y cyfan y mae'r estyniad dwy flynedd yn ei wneud yw gwthio'r broblem i'r dyfodol, gan godi'r cwestiwn o beth fydd yn digwydd i'r rhai sy'n dal i fod â statws cyn-sefydlog erbyn y pwynt hwnnw; ac
- Efallai y bydd y system uwchraddio awtomatig yn colli nifer sylweddol o ddeiliaid statws cyn-sefydlog a ddaw yn gymwys i gael uwchraddiad ond nad ydynt yn gadael llwybr gweinyddol digonol o'u preswylfa barhaus, efallai oherwydd nad ydynt yn talu treth neu'n cael budd-daliadau.

### Y DU mewn Ewrop sy'n Newid

**27.** Ar 25 Medi 2023, gwnaeth yr Athro Catherine Barnard a Fiona Costello o'r DU mewn Ewrop sy'n Newid esbonio – er nad oes amheuaeth bod uwchraddio statws yn awtomatig yn ddefnyddiol i lawer – y bydd y newidiadau yn gadael mwy o unigolion bregus mewn sefyllfa ansicr barhaus.

**28.** Nododd yr awduron eu pryderon am grwpiau bregus, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig a gweithwyr mudol cyflog isel. Maent hefyd yn codi cwestiynau pwysig, gan gynnwys:

- Sut mae'r estyniad dwy flynedd yn sefyll gyda chroniad awtomatig o hawliau preswylio parhaol a ddarperir gan y Cytundeb Ymadael?
- Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn methu ag uwchraddio ar ôl yr estyniad dwy flynedd cychwynnol?
- Beth mae'r newidiadau yn ei olygu i'r rhai nad ydynt yn cynhyrchu'r ôl troed digidol sy'n angenrheidiol ar gyfer uwchraddio awtomatig, fel plant a gweithwyr mudol?

**29.** Maent yn dod i'r casgliad a ganlyn o rhan yr hyn fydd yr estyniad dwy flynedd yn ei olygu:

> *"an extension in the hardship of many vulnerable individuals and families because, as the Home Office's own literature says, 'it's easier to prove your right to live in the UK permanently if you have settled status'."*

## Nifer y preswylwyr cyn-sefydlog yng Nghymru

**30.** Mae'r mapiau dros y dudalen yn dangos nifer y preswylwyr â statws cyn-sefydlog yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Dangosir cyfanswm y ceisiadau mewn cromfachau.

## Troi statws preswylydd cyn-sefydlog yn statws preswylydd sefydlog


**31.** Mae'r nifer sy'n gwneud cais i droi eu statws cyn-sefydlog yn statws sefydlog yn cael eu cofnodi mewn ystadegau ar geisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno ar gyfer y DU gyfan.

**32.** Cyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU a ddisgrifir uchod, dangosodd yr ystadegau fod 611,960 o breswylwyr cyn-sefydlog wedi symud i statws sefydlog drwy ail gais. Yn ôl y Migration Observatory, mae hyn yn gyfystyr â tua 22% o bobl nad oeddynt erioed wedi cael statws cyn-sefydlog.

**33.** Ni chaiff gwybodaeth ei chofnodi fesul gwlad yn y DU. Mae hynny'n golygu na wyddom faint o geisiadau a gyflwynwyd gan ddinasyddion yng Nghymru sydd â statws preswylio cyn-sefydlu ac sy'n ceisio'i newid.

**34.** Mae cofnodion cyfarfod Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun o fis Medi 2023 yn cofnodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i ddiweddariadau ystadegol a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref yn y dyfodol ddangos dadansoddiadau o'r rhai sydd wedi'u huwchraddio'n awtomatig a'r rhai a wnaeth gais i gael eu huwchraddio. Mae'r cofnodion yn dangos bod y cais yn cael ei ystyried ac y byddai swyddogion yn ymateb maes o law.

***1 - Map o Gymru sy'n dangos nifer y dinasyddion cyn-sefydlog ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a chyfanswm y ceisiadau mewn cromfachau.***




Ffynhonnell: Tablau awdurdodau lleol, ystadegau'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Rhagfyr 2023, Llywodraeth y DU

Gwnaeth y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am gadarnhad ar y canlynol:

- ei hymateb i'r newidiadau i statws preswylwyr cyn sefydlu;
- a yw Llywodraeth y DU wedi rhoi'r eglurder ac wedi cynnwys y llywodraethau datganoledig yn llawn, yn unol â chais Llywodraeth Cymru;
- a yw Llywodraeth y DU wedi ymateb i gais Llywodraeth Cymru, bod dadansoddiadau ystadegol yn cael eu darparu ynghylch uwchraddiadau statws awtomatig a'r rhai a wnaeth gais i uwchraddio o statws preswylydd cyn-sefydlog i statws sefydlog;
- barn y Gweinidog ar y pryderon a godwyd gan yr Arsyllfa Ymfudo a'r DU mewn Ewrop sy'n Newid mewn perthynas â'r effaith ar grwpiau bregus.

Mae ymateb y Gweinidog yn egluro'r canlynol:

- Roedd hi wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2023 yn galw am well ymgysylltu ar gynlluniau'r Swyddfa Gartref i roi dyfarniad yr Uchel Lys ar waith;
- ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun, ac ni chafodd rybudd ymlaen llaw cyn i'r cyhoeddiad gael ei wneud;
- ysgrifennodd y Gweinidog at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ym mis Awst i hysbysu'r Swyddfa Gartref bod y diffyg ymgysylltu hwn yn cael effaith andwyol ar allu Llywodraethau Datganoledig i roi'r polisi ar waith yn effeithiol. O ganlyniad, gwellodd ymgysylltu ac roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn:

- "*Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â'r IMA i sicrhau dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r newidiadau diweddar i'r system fewnfudo yn ei olygu i ddinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog*", a hefyd:
- "*Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu estyn statws preswylydd cyn-sefydlog ac uwchraddio statws preswylydd sefydlog yn awtomatig, gan fod hyn yn lleihau'r baich ar ddinasyddion yr UE ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl heb statws diogel yn y diwedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref am eglurder ynghylch sut y bydd yn hysbysu*

*dinasyddion nad ydynt yn gymwys i gael eu huwchraddio'n awtomatig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dinasyddion hynny yn ymwybodol y bydd hi'n ofynnol iddynt wneud cais i newid o statws preswylydd cyn-sefydlog i statws preswylydd sefydlog. Rydym wedi cael sicrwydd y bydd yr holl unigolion na ellir eu huwchraddio'n awtomatig i statws preswylydd sefydlog yn cael eu hysbysu'n briodol."*

At hynny, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru'r canlynol:

- *"mae'r Swyddfa Gartref wedi ymateb i'n cais am ystadegau ynghylch nifer y deiliaid statws preswylydd cyn sefydlog sydd wedi'u huwchraddio'n awtomatig i statws preswylydd sefydlog, ac mae'r niferoedd hynny yn fwy calonnog. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ac nid yw Llywodraeth y DU yn cynnwys y data hyn wrth gyhoeddi Ystadegau Chwarterol arferol y Cynllun, felly ni allwn rannu'r ystadegau hynny."*

## Ein barn ni

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi preswylwyr cyn-sefydlog yng Nghymru gyda'r newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, megis diweddaru adnoddau a chynnal cyswllt rheolaidd â'r Awdurdod Monitro Annibynnol.

**Casgliad 3.** Rydym yn siomedig i glywed na chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw rybudd ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU ynghylch newidiadau a wnaed i'r Cynllun. Fodd bynnag, nodwn hefyd y gwelliant dilynol mewn ymgysylltu rhwng y ddwy lywodraeth, a disgwyliwn i hyn barhau.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn galw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i gydweithio ar roi'r newidiadau i'r Cynllun ar waith, yng ngoleuni eu goblygiadau pwysig i ddinasyddion Ewrop sy'n byw yng Nghymru.


# 4. Ceisiadau hwyr

**35.** Mae'r Cynllun yn parhau i fod ar agor ar gyfer ceisiadau hwyr, a ganiateir os oes gan unigolyn sail resymol dros fethu'r dyddiad cau. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhiant sydd wedi methu â gwneud cais ar ran plentyn neu berson â chyflwr meddygol difrifol. Mae Llywodraeth y DU wedi addo diogelu hawliau'r rhai sydd â sail resymol dros fethu'r dyddiad cau.

## Nifer y ceisiadau hwyr o Gymru

**36.** Gwnaeth nifer y ceisiadau hwyr o Gymru gyrraedd 20,570 ar ddiwedd Rhagfyr 2023. Roedd 570-830 o geisiadau hwyr bob mis yn 2023, fel y dangosir yn y graff isod.

**Ceisiadau a gafwyd bob mis yng Nghymru i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**




Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Rhagfyr 2023

## Materion sy'n codi

**37.** Mae cofnodion cyfarfod Grŵp Cydgysylltu Llywodraeth Cymru y Cynllun ym mis Mehefin 2023 yn cofnodi bod sefydliadau'n brysurach nag yn y gorffennol, gydag adnoddau cyfyngedig a bod lefel uchel o achosion cymhleth yn parhau. Mae diweddariadau gan Settled, TGP Cymru a Chyngor ar Bopeth yn nodi cynnydd yn nifer y bobl sydd angen gwneud cais, gan gynnwys plant a grwpiau bregus eraill, yn enwedig trais domestig ac achosion o ddigartrefedd. Mae

rhwystrau iaith a TG yn parhau i fod yn heriol, er enghraifft, nid yw rhai ymgeiswyr yn sylweddoli bod eu cais wedi'i wrthod.

**38.** Mae Migration Observatory yn nodi nad yw ceisiadau hwyr wedi gostwng yn gyson dros amser, ac wedi parhau i fod yn fwy na 15,000 y mis trwy gydol 2022 a 2023 ledled y DU.

**39.** Dywed bod yr heriau o benderfynu ar geisiadau hwyr wedi tyfu am nifer o resymau, gan gynnwys yr heriau o roi tystiolaeth ynghylch preswyliad yn hirach yn ôl, bod ymgeiswyr yn fwy tebygol o fod yn fregus ac oherwydd ceisiadau gan bobl sy'n cyrraedd y DU ar ôl y dyddiad cau ac yn gwneud cais er nad ydynt yn gymwys, gan gynyddu'r her o ganolbwyntio adnoddau ar ymgeiswyr cymwys.

**40.** At hynny, mae'n nodi bod y gyfradd wrthod ar draws y DU ar gyfer ceisiadau wedi cynyddu'n gyflym dros amser, o lai na 3% o'r holl benderfyniadau yn gynnar yn 2021 i 37% erbyn Mehefin 2023.

**41.** Mae The 3 million, sef y sefydliad llawr gwlad mwyaf ar gyfer dinasyddion Ewropeaidd, yn monitro'r oedi o ran ceisiadau. Mae'n dweud y canlynol:

> *"Since the opening of the scheme, as at the end of March 2023, 44% of people waited for longer than 30 days before getting their status. Almost 425,000 people had to wait for longer than 6 months, and almost 65,000 people had to wait for more than a year.*
>
> *The number of people whose applications took more than 18 months to conclude went up by a staggering 68% from just over 7,000 as at December 2022, to almost 12,000 as at March 2023."*

**42.** Lansiodd yr Awdurdod Monitro Annibynnol ymchwiliad i oedi o ran ceisiadau y gallai dinasyddion ymateb iddo hyd at 16 Hydref 2023. Nid yw'r ymchwiliad wedi ei gyhoeddi eto.

## Newidiadau i ganllawiau 'seiliau rhesymol'

**43.** Yn ogystal â'r newidiadau i statws cyn-sefydlog a ddisgrifir uchod, gwnaed newidiadau hefyd i ganllawiau 'seiliau rhesymol" ceisiadau hwyr. Daeth y newidiadau i rym o 9 Awst 2023. Mae Kingsley Napley, a'r ymgynghorwyr cyflogaeth, Lewis Silkin, or farn bod y newidiadau yn cynrychioli dull llymach, mwy cul.

**44.** Mae Kinglsey Napley yn esbonio fel a ganlyn:

> *"whether there is a 'reasonable excuse' for a late application will be a validity requirement instead of an eligibility requirement. This means that whether an applicant has a 'reasonable excuse' for a late application will be considered before any other merits of the application are looked at. Importantly, if the Home Office rejects the application as invalid, it means there is no right of appeal or Administrative Review. The only recourse would be judicial review.*
>
> *Previously, applicants were issued a "Certificate of Application (CoA)" at the point of submission to prove various rights such as the right to work and rent. However, this change means that the Home Office will not issue a CoA until it has decided on the validity points, potentially delaying the applicant's ability to prove their rights."*

## Dileu'r hawl i adolygiad gweinyddol

**45.** Ar 7 Medi 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd ei bod yn dileu'r hawl i adolygiad gweinyddol o benderfyniadau o ran y Cynllun, a wnaed ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 a wrthodwyd neu a gafodd eu canslo. Fe wnaeth y penderfyniad hwn ddileu un llwybr y gall dinesydd Ewropeaidd ofyn i'r Swyddfa Gartref ailystyried penderfyniad. Mae'r hawliau i apelio, ceisio adolygiad barnwrol neu gyflwyno cais arall i'r Cynllun yn parhau i fod ar waith.

**46.** Dywedodd Robert Jenrick, y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo:

> *The changes create streamlined arrangements for challenging a decision and align with the approach taken in the rest of the immigration system (where no dual right of redress exists).*

Gwnaeth y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth ganlynol:

Ei barn ar y newidiadau a wnaed mewn perthynas â cheisiadau hwyr, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer sail resymol a dileu'r hawl i adolygiad gweinyddol.

- Ei barn ar geisiadau hwyr o Gymru, sydd wedi aros yn gyson rhwng 570 ac 830 y mis yn 2023.

- Cadarnhad o ran a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o heriau penodol i ymgeiswyr hwyr yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau dros amser i'r mathau o achosion a chymhlethdodau'r achosion a gaiff eu trin gan sefydliadau a ariennir.
- Cadarnhad o ran yw Llywodraeth Cymru a sefydliadau a ariennir yn gweld yr un tueddiadau â'r rhai a gaiff eu dogfennu ledled y DU, mewn perthynas â chynnydd mewn cyfraddau gwrthod ac oedi o ran penderfyniadau.
- Unrhyw ystadegau sy'n benodol i Gymru ar y materion hynny y gall eu rhannu â'r Pwyllgor.
- Diweddariad ar drafodaethau rhynglywodraethol ar y materion hyn.

Mae ymateb y Gweinidog yn datgan fel a ganlyn:

- Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi lleisio pryderon ynghylch cael gwared ar y broses adolygu gweinyddol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd yna ddinasyddion dilys o'r UE sy'n dal i wneud cais hwyr i'r Cynllun, ac sy'n cael eu gwrthod oherwydd y tynhau ar feini prawf dilysrwydd a chanllawiau gweithwyr achos ar sail resymol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog unrhyw ddinesydd sydd wedi cael ei wrthod – ac sydd o'r farn eu bod wedi gwneud cais hwyr dilys – i gysylltu ag un o'r sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru am gymorth.
- Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod cymhlethdod yr achosion y maent yn ymdrin â hwy yn broblem, a bod angen gweithwyr achos ag achrediad OISC lefel 2 – a hyd yn oed lefel 3 – i ymdrin â'r achosion y maent yn eu gweld.

Datgelodd y Gweinidog hefyd:

- "Er bod niferoedd uchel o geisiadau hwyr o hyd, mae swyddogion y Swyddfa Gartref wedi nodi mai ceisiadau a ailgyflwynir yw'r rhain yn bennaf, ac nid ceisiadau newydd. Dyma'r  rheswm dros gyfyngu ar y meini prawf dilysrwydd. Mae swyddogion y Swyddfa Gartref wedi nodi ymhellach eu bod yn awyddus i sicrhau nad oes oedi o ran ymdrin â cheisiadau hwyr dilys yn sgil y llif o geisiadau a ailgyflwynir gan ddinasyddion nad ydynt yn gymwys i gael statws preswylydd cyn-sefydlog na statws preswylydd sefydlog ac y gwrthodwyd statws iddynt."

- "Mae nifer y ceisiadau hwyr a wnaed gan ddinasyddion o'r UE yng Nghymru wedi gostwng dros fisoedd y gwanwyn a'r haf ond mae nifer y ceisiadau yn codi eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref am ddadansoddiad o'r mathau o geisiadau ond nid ydym wedi cael ymateb i'r cais hwn eto."

# 5. Dim cais

**47.** Os nad yw person wedi gwneud cais i'r Cynllun ac yn dod i sylw awdurdodau'r DU, bydd yn cael hysbysiad 28 diwrnod i wneud cais. Dywed Llywodraeth y DU na fydd pobl nad ydynt wedi gwneud cais ar ôl yr hysbysiad 28 diwrnod yn gymwys i gael gwaith, budd-daliadau na gwasanaethau ac na fyddant yn pasio gwiriadau tenantiaeth.

**48.** Mae'n bosibl y cymerir camau gorfodi yn eu herbyn, er bod Llywodraeth y DU yn pwysleisio na fyddant yn cael eu hallgludo'n awtomatig.

### Cafodd dau lwybr o ran y Cynllun eu cau i geisiadau newydd ar 8 Awst 2023.

**49.** Wrth gyhoeddi'r newidiadau a nodir uchod, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai dau o lwybr o ran y Cynllun yn cau i geisiadau newydd o 8 Awst 2023:

1. Trwydded Teulu'r Cynllun, sy'n berthnasol i aelodau teulu dinesydd cymwys Prydeinig (a elwir yn achosion 'Surinder Singh'); a
2. 'Hawl i breswylio' Zambrano: yn berthnasol i brif ofalwyr dinesydd Prydeinig (mae mwy o wybodaeth ar gael mewn erthygl gan Turpin Miller).

Gwnaeth y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y canlynol:

- Ei barn ar gau llwybrau Trwyddedau Teulu a llwybrau Zambrano ar gyfer y Cynllun.
- Diweddariad ar drafodaethau rhynglywodraethol ar y materion hyn.

Mae ymateb y Gweinidog yn egluro'r canlynol:

Ni ymgynghorodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau i gau llwybrau Zambrano a Thrwyddedau Teulu, a dim ond pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU y newidiadau i'r rheolau mewnfudo ym mis Gorffennaf y cawsant eu hysbysu, gan gadarnhau cau'r ddau lwybr:

- "Gyda thystiolaeth mai nifer bach iawn o geisiadau a gyflwynwyd drwy'r llwybrau hynny gan breswylwyr Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd cau'r llwybrau hyn yn cael effaith fawr. Fodd bynnag, fel bob amser,

byddai rhybudd ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU  wedi galluogi gwell dadansoddiad o hyn."

## Ein barn ni

**Casgliad 4.** Rydym yn nodi pryderon y Gweinidog bod achosion yn gynyddol gymhleth.

**Casgliad 5.** Rydym yn siomedig na chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw rybudd ymlaen llaw am newidiadau pellach i'r cynllun yn ymwneud â meini prawf culach, a chau llwybrau'r Cynllun.

**Casgliad 6.** Nodwn nad aethpwyd i'r afael â'n pryderon hirsefydlog yn ymwneud â phobl sy'n gwneud ceisiadau hwyr. At hynny, rydym o'r farn bod yna gryn rwystr i ymgeiswyr hwyr yn sgil newidiadau diweddar i'r Cynllun, ac rydym yn rhannu pryderon y Gweinidog ynghylch y rheini sy'n gwneud ceisiadau dilys.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro ceisiadau hwyr o Gymru yn ofalus, er mwyn pennu goblygiadau newidiadau i'r Cynllun – gan gynnwys meini prawf culach a chau llwybrau'r Cynllun – ar ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru tan ddiwedd 2025, o leiaf.

# 6. Cymorth gan Lywodraeth Cymru

**50.** Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario dros £2.7 miliwn i ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth am ddim i'r rhai sy'n gwneud cais i'r Cynllun, ac mae hyn wedi'i ymestyn yn rheolaidd.

**51.** Gwnaeth y Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023:

> *Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i benderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithiol, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi* pob *grŵp agored i niwed neu anodd eu cyrraedd …*

## Gwasanaethau cyngor a chymorth

**52.** Ar 23 Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddatganiad yn egluro'r canlynol:

- Bydd £200,000 yn ychwanegol yn cael ei roi i Gyngor ar Bopeth a Settled er mwyn darparu cymorth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (o fis Ebrill 2024), a bydd

- cytundeb Newfields Law yn cael ei ymestyn am 6 mis ychwanegol er mwyn galluogi'r cwmni i gefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol gyda threfniadau recriwtio o dramor, a bydd yn cynnwys cymorth pellach ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun. Nid oes dyddiadau penodol wedi'u darparu.

**53.** Mae'r Gweinidog yn cynghori y cafodd llawer o'r rheini sydd wedi cyflwyno cais i'r Cynllun gefnogaeth un o'i bartneriaid a ariennir, ond ni roddir union rif.

**54.** Dywedodd y Gweinidog yn ddiweddarach, ar 12 Mehefin 2023, y byddai camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau cynghori yn parhau am y 12 mis nesaf, o leiaf.

## Cymuned Roma

**55.** Ym mis Mehefin 2023, ymatebodd y Gweinidog i gais y Pwyllgor am wybodaeth am gefnogaeth a ddarperir i'r gymuned Roma. Eglurodd y Gweinidog:

- Bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect Travelling Ahead TGP Cymru hyd at 31 Gorffennaf 2023 ond ei bod yn edrych ar opsiynau i barhau â gwasanaeth diwygiedig o 2024 ymlaen.
- Cafodd gwasanaethau a ddarperir gan Settled eu hariannu hyd at fis Mawrth 2024, gan gynnwys cefnogaeth yn yr iaith Romaneg.
- Bod TGP a Settled yn y broses o wneud cais ar y cyd am gyllid Llywodraeth y DU, a allai gefnogi'r gymuned Roma.
- Nid yw'r Cynllun – na'r sefydliadau a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru – yn cofnodi ethnigrwydd y rheini sy'n cyflwyno cais i'r Cynllun. Esbonia'r Gweinidog bod diffyg data ystadegol yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y sawl sy'n darparu cyngor, i roi gwybod iddi am faterion sy'n ymwneud ag achosion agored i niwed/gwendidau penodol. Roedd yn aros am ystadegau gan TGP ar nifer yr unigolion o'r gymuned Roma a allai fod angen cymorth o hyd.

Gwnaeth y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y canlynol:

- Cadarnhad o ran a yw cynlluniau cymorth wedi newid yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU, ac ym mha ffordd.
- Diweddariad ar y cymorth sydd ar gael ac amserlenni cysylltiedig.
- Ystadegau ar nifer y dinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau cyngor a chymorth y Cynllun.

Diweddariad ar gymorth i'r gymuned Roma sy'n gysylltiedig â'r cynllun, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru wedi dysgu faint o unigolion a allai fod angen cymorth o hyd.

Atebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Ymestynnodd Llywodraeth Cymru Wasanaethau Cynghori'r Cynllun – a ddarperir gan Settled a Chyngor ar Bopeth Cymru – tan 31 Mawrth 2024.
- Mae Cyngor ar Bopeth a Settled yn rhoi adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu, sy'n cynnwys nifer y dinasyddion y maent yn eu helpu i gyflwyno cais llwyddiannus i'r Cynllun. Fodd bynnag, mae nifer y dinasyddion sy'n ceisio cyngor yn llai o broblem ar ôl y dyddiad cau. Yn hytrach, cymhlethdod yr achosion sy'n cynyddu.

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect Travelling Ahead yn TGP Cymru i ddarparu cyngor a chymorth eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r Gweinidog yn egluro bod y prosiect yn ceisio cael "effaith gadarnhaol ar fywydau pobl drwy gefnogi aelodau o'r gymuned i sicrhau diogelwch llety, i gael mynediad at wasanaethau a budd-daliadau, ac i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gwasanaethau cyhoeddus".
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymarfer caffael newydd i ail-dendro'r ddarpariaeth o gyngor a chymorth eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gyda'r bwriad o osgoi unrhyw doriad yn y gwasanaethau sydd ar gael.
- Mae TGP Cymru yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth y DU i ddarparu gwasanaethau cyngor lefel 1 OISC, o ran y Cynllun, i'r gymuned Roma. Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddata ar nifer yr unigolion sydd angen cymorth, ond nid yw'n ymwybodol bod unrhyw alw cynyddol am gyngor ar gyfer y gymuned Roma.

## Ein barn ni

**Casgliad 7.** Rydym yn croesawu camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rheini sy'n cyflwyno cais i'r Cynllun yng Nghymru.

**Casgliad 8.** Rydym yn ailbwysleisio ein pryderon blaenorol, sef y gallai'r rhai sydd wedi methu â gwneud cais ar hyn o bryd fod yn dod o grwpiau anoddach eu cyrraedd, heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n agored i niwed.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi dinasyddion Ewrop sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini sy'n cyflwyno cais i'r Cynllun.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i dargedu ei chymorth gyda'r Cynllun at grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n agored i niwed, gan gynnwys y gymuned Roma.

# 7. Wcráin

**56.** Fel rhan o'r mesurau a gymerwyd mewn ymateb i ymosodiad Rwsia ar Wcráin, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i Brif Weinidog y DU ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trwyddedau teulu dan y Cynllun i ganiatáu i bobl o Wcráin sy'n aelodau teulu dinasyddion Ewropeaidd cymwys ddod i'r DU. Ni chafodd y cynllun ei ymestyn i aelodau o deuluoedd o Wcrain y tu hwnt i'w ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 29 Mawrth 2022. Wedi hynny, mae'r meini prawf 'sail resymol' ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais hwyr, yn gymwys.

**57.** Fel yr eglurwyd uchod yn adran 6, caeodd cynllun Trwydded Teulu EUSS i bob cais newydd ar 8 Awst 2023.

**58.** Mae ystadegau'r Cynllun yn dangos bod 15,700 o geisiadau wedi dod i law gan bobl o Wcráin hyd at 31 Rhagfyr 2023, gyda 15,330 yn cael penderfyniad. Mae'r ystadegau diweddaraf yn rhoi canlyniad y ceisiadau a ddaeth i ben, fel a ganlyn: rhoddwyd statws sefydlog i 5,410 (35.3%) a rhoddwyd statws preswylydd cyn-sefydlog i 8,700 (56.8%). Cafodd gweddill y ceisiadau eu gwrthod (420 – 2.7%), eu tynnu'n ôl neu'n ddi-rym (510 – 3.3%) neu'n annilys (300 – 2.0%).

**59.** Nid yw gwybodaeth am wledydd unigol y DU ar gael. Fodd bynnag, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2023 fod 80 o geisiadau gan bobl â chyfeiriad yng Nghymru wedi'u gwneud i'r Cynllun.

Gwnaeth y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y canlynol:

- Diweddariad ar nifer y rheini o Wcráin wnaeth gais i'r Cynllun, sydd â chyfeiriad yng Nghymru, fel y cafwyd yn flaenorol wrth wneud cais gan Lywodraeth y DU.
- Cadarnhad o ran yw Llywodraeth Cymru neu aelodau o'i Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol sy'n codi i ddinasyddion Wcráin yn enwedig ers cau'r llwybr Trwydded Teulu.

Mae ymateb y Gweinidog yn datgan fel a ganlyn:

- Hyd at 30 Medi 2023, cyflwynodd 15,260 o wladolion Wcráin ledled y DU gais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
- Fodd bynnag, gan na ddarperir dadansoddiad, ni all Llywodraeth Cymru roi ffigur o faint o'r rheini a gyflwynodd gais, a oedd yn dod o Gymru.

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol i ddinasyddion Wcráin yn dilyn cau'r Llwybr Trwydded Teulu ar gyfer y Cynllun.

**Casgliad 9.** Rydym yn ailbwysleisio ein safbwynt hirsefydlog, sef bod llwybr Trwydded Teulu'r Cynllun yn un o lawer o lwybrau hanfodol i'r DU ar gyfer dinasyddion Wcráin. Roeddem yn siomedig na chafodd ei ddyddiad cau gwreiddiol ar gyfer ceisiadau ei ymestyn, a bod ei gau yn cynrychioli gostyngiad yn y llwybrau sydd ar gael i'r DU ar gyfer y rheini sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn nodi ymateb y Gweinidog, sef nad yw'n ymwybodol o unrhyw faterion penodol i ddinasyddion Wcráin yn dilyn cau llwybr Trwydded Teulu'r Cynllun. Serch hynny, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i fonitro'r sefyllfa hon ac i hysbysu'r Pwyllgor os bydd y sefyllfa'n newid.

# 8. Awdurdod Monitro Annibynnol

**60.** Cafodd Awdurdod Monitro Annibynnol y DU ei sefydlu i amddiffyn hawliau dinasyddion Cymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd (neu *EFTA*) yr UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd – ac aelodau o'u teuluoedd – yn y DU a Gibraltar, trwy fonitro cyrff cyhoeddus y DU. Mae hyn yn ofynnol gan Erthygl 159 o'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE ac Erthygl 64 o Gytundeb Gwahanu EFTA rhwng y DU a Gwladwriaethau'r AEE.

**61.** Gosododd yr Awdurdod Monitro Annibynnol ei ail adroddiad blynyddol yn y Senedd ar 29 Mehefin 2023. Mae'r adroddiad yn cynnwys adroddiad penodol ar blant a phobl sy'n gadael gofal yng Nghymru sy'n adolygu'r cymorth a ddarperir gan holl awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru wrth gyflwyno cais i'r Cynllun. Roedd hyn yn rhan o adolygiad yr Awdurdod ledled y DU i'r gefnogaeth a ddarperir gan lywodraeth leol.

**62.** Mae'r adroddiad yn manylu ar nifer o bryderon yr Awdurdod, gan gynnwys diffyg o ran y canlynol:

- prosesau wedi'u dogfennu a chanllawiau gweithredol ysgrifenedig;
- cadw cofnodion cywir a chipio a storio data;
- cyfeiriadau at nodi aelodau teulu EFTA y tu allan i'r UE a'r AEE o ddinasyddion EFTA yr UE a'r AEE; a
- defnyddio ethnigrwydd yn hytrach na chenedligrwydd i nodi cymhwysedd dinasyddion.

**63.** O ganlyniad, dywedodd yr Awdurdod ei fod yn ystyried agor ymchwiliadau cydymffurfio unigol.

**64.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cofnodion cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor o'i Grŵp Cydgysylltu y Cynllun, Cymru. Mae'r cofnodion ar gyfer mis Mehefin 2023 yn cofnodi diweddariad a ddarparwyd gan yr Awdurdod yn y cyfarfod, lle mae'n datgan bod gan 21 o 22 awdurdod lleol achosion sicrwydd ar agor a bod yr Awdurdod wrthi'n ailraddio'r awdurdodau lleol. At hynny, nododd y diweddariad fod cofnodi data wedi gwella.

Gwnaeth y Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y canlynol:

- Ymateb i ganfyddiadau'r Awdurdod Monitro Annibynnol;

- diweddariad statws ar achosion sicrwydd yr Awdurdod Monitro Annibynnol o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae ymateb y Gweinidog yn datgan fel a ganlyn:

- Roedd Llywodraeth Cymru yn falch bod awdurdodau lleol wedi delio â phryderon yr Awdurdod Monitro Annibynnol. Cadarnhaodd yr Awdurdod Monitro Annibynnol fod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cymryd camau rhagweithiol i wella eu prosesau, eu gweithdrefnau, a'u gwybodaeth reoli, i sicrhau eu bod yn diogelu hawliau plant sy'n derbyn gofal o'r UE, a'r rhai sy'n gadael gofal. O ganlyniad i'r mesurau a gymerwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, cafodd bob un o'r 22 awdurdod lleol ddyfarniad 'gwyrdd' gan yr Awdurdod Monitro Annibynnol.1

- Canmolodd Llywodraeth Cymru bob awdurdod lleol yng Nghymru am eu hymgysylltiad â'r Awdurdod Monitro Annibynnol, gan nodi bod awdurdodau lleol – mewn rhai achosion – wedi gallu nodi niferoedd ychwanegol o blant a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd yn parhau i gefnogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i roi prosesau cadarn ar waith, er mwyn nodi a chefnogi carfannau cymwys yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw achosion awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i fod ar agor ar hyn o bryd.

## Ein barn ni

**Casgliad 10.** Rydym yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Awdurdod Monitro Annibynnol, ac yn croesawu'r ffaith bod mesurau rhagweithiol a gymerwyd gan awdurdodau lleol Cymru yn golygu bod pob un o'r 22 wedi cael dyfarniad gwyrdd.

[1] Adolygiad Sicrwydd (Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rheini sy'n Gadael Gofal) Atodiad 1a: Adolygiad dilynol Cymru

# 9. Fforwm Hawliau Dinasyddion newydd yr UE

**65.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod Grŵp Cydgysylltu Llywodraeth Cymru wedi cynnwys nifer o bartneriaid allanol sy'n helpu dinasyddion i wneud cais i'r Cynllun. Yn dilyn cais a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, cytunodd y Gweinidog i rannu cofnodion cyfarfod y Grŵp, ac rydym wedi'u cael yn rheolaidd.

**66.** Roedd ymateb y Gweinidog yn hysbysu'r Pwyllgor fod Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun wedi cau, a bod Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE ehangach wedi'i ddisodli. Bydd y Fforwm newydd yn ymdrin â hawliau dinasyddion yr UE yn ogystal â'r Cynllun.

**67.** Ym mis Rhagfyr 2023, rhannodd y Gweinidog Gylch Gorchwyl y Fforwm, sy'n bwrw ymlaen â'r ymrwymiad i rannu cofnodion cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor.

### Ein barn ni

**Casgliad 11.** Rydym yn croesawu esblygiad Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun yn Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE ar ei newydd wedd. O ystyried nad yw'r broses o sicrhau hawliau ar ôl Brexit wedi'i chwblhau eto, ein gobaith yw y bydd y Fforwm yn gwarantu ymgysylltiad parhaus â'r materion hyn yn y dyfodol.

**Casgliad 12.** Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i rannu cofnodion cyfarfodydd Fforwm Hawliau Dinasyddion newydd yr UE gyda'r Pwyllgor yn cydymffurfio â'n hargymhelliad blaenorol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn i dryloywder yn fawr.

# 10. Y camau nesaf

**68.** Yn ogystal â'i waith parhaus ar y Cynllun yng Nghymru, cytunodd y Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 y byddai'n gwneud y canlynol fel mater o drefn:

- Cyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd ar hawliau dinasyddion Ewrop yng Nghymru, sydd ar gael ar wefan y Senedd; a
- rhannu ei adroddiadau â'r Awdurdod Monitro Annibynnol..